Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 690 (Cy. 188)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU

# LLYGREDD MOROL, CYMRU

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011"), sy'n cynnwys cyfeiriad at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ar wastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ L 312, 22.11.2008, t. 3.) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff").

Mae angen y diwygiad a wneir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn er mwyn gweithredu diwygiadau i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a wneir gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127 dyddiedig 10 Gorffennaf 2015 sy'n diwygio Atodiad II i Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff a diddymu Cyfarwyddebau penodol.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yng Ngorchymyn 2011.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol, o ran Cymru, o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 690 (Cy. 188)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU

# LLYGREDD MOROL, CYMRU

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016

*Gwnaed* *28 Mehefin 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *1 Gorffennaf 2016*

*Yn dod i rym* *31 Gorffennaf 2016*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) ("Deddf 1972") mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf 1972.

(**1**) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) mewn perthynas ag unrhyw fater os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw, neu at unrhyw ddiben os ydynt wedi eu dynodi at y diben hwnnw.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(**3**) O.S. 2010/1552.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Gorffennaf 2016.

**Diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3 (dehongli), yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff" ("*the Waste Framework Directive*"), ar ôl "Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff" mewnosoder ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (UE) 2015/1127(**2**)".

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
28 Mehefin 2016

(**1**) O.S. 2011/559 (Cy. 81).
(**2**) OJ L 184, 11.7.2015, t. 13.